



Canolfan Gymunedol yn Ninbych

Siop Groser a Nwyddau Tŷ Eco lle gellir ail-lenwi

Swyddi Gwag ar gyfer Gwirfoddolwyr

Mae gennym ddwy swydd gyffrous i wirfoddolwyr yn Y Tŷ Gwyrdd, canolfan gymunedol newydd Dinbych, sy'n paratoi i agor siop sy'n gwerthu cynnyrch lleol, moesegol ac ail-lenwi.

Os ydych yn angerddol am eich cymuned leol ac yn teimlo'n gryf eich bod eisiau helpu i leihau effaith cymunedau ar yr amgylchedd, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Rydym yn chwilio am geisiadau ar gyfer Cynorthwydd Siop a Chynorthwydd Marchnata Digidol. Mae'r ddwy swydd yn wirfoddol ac yn rhan amser. Byddai profiad blaenorol yn fanteisiol er nad yw'n hanfodol.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r **Cynorthwydd Siop** yn cynnwys:

- cyfarch a rhoi gwasanaeth i gwsmeriaid
- cynghori cwsmeriaid ynglŷn â'r cynhyrchion
- pecynnu archebion ar gyfer clicio a chasglu
- helpu i gynnal y siop, gan gynnwys glanhau ac ail-lenwi cynwysyddion storio
- cadw cofnod o lefelau stoc er mwyn gwybod pryd i archebu

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau trefnu, gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu cadarn. Byddwch hefyd yn rhoi sylw i fanylion ac yn gwrtais a phroffesiynol.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r **Cynorthwydd Marchnata Digidol** yn cynnwys:

- helpu i ddiweddarau a rheoli cynnwys y wefan
- helpu i baratoi a rheoli negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol
- canfod ac ymchwilio i rwydweithiau digidol sydd â moeseg gymdeithasol ac amgylcheddol debyg er mwyn eu dilyn ac ymgysylltu â nhw
- bod yn rhagweithiol wrth nodi ac awgrymu cyfleoedd i hyrwyddo'r busnes

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau trefnu a chyfathrebu cadarn, bydd yn greadigol, gyda sgiliau TG da.

Mae rhagor o wybodaeth am y busnes ar gael drwy fynd i www.ytygwyrdd.cymru

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â ni drwy helo@ytygwyrdd.cymru neu facebook @ytygwyrdd

I gael eich ystyried ar gyfer unrhyw un o'r cyfleoedd gwirfoddoli hyn anfonwch eich CV i helo@ytygwyrdd.cymru